Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cyfarfod: Bwrdd Plismona**
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda SCHTh**
**Dyddiad: 24 Ebrill 2017**
**Amser: 10:00 – 11:00**

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu (SR)<br>Arol. Anthony Evans, Swyddog Staff (AE)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 28/03/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2138** | **Cam gweithredu: : Sicrhau bod Rachel Jones o'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio yn rhan o drafodaethau pellach am Gyfleoedd Cydweithredu .** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2139** | **Cam gweithredu: Rhoi copi o gynllun y Gweithgor i'r CHTh yn ystod y cyfnod cyflwyno papurau BAH** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2140** | **Cam gweithredu: Yr Heddlu i baratoi cyflwyniad ar gyfer y seminar hyfforddiant y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Medi.** | **Cyfredol** |
| **PB 2141** | **Cam gweithredu: Y Pennaeth Staff i ymgysylltu â'r Heddlu ynghylch y Panel Heddlu a Throseddu.** | **Cyfredol** |
| **PB 2142** | **Cam gweithredu: Y Cyfarwyddwr Comisiynu i ddrafftio ymateb ar y cyd i'r ddogfen Canolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhyw.** | **Cyfredol** |
| **PB 2143** | **Cam gweithredu: Y Pennaeth Staff i ymuno â'r Dirprwy Brif Gwnstabl i drafod adolygu'r Bwrdd Llywodraethu.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2144** | **Cam gweithredu: Y PG i roi arweiniad i'r tîm cynllunio'r gwefan am luniau swyddogion.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2145** | **Cam gweithredu: HH i gysylltu â'r Panel Heddlu a Throseddu am y ddolen i'w gwefan.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2146** | **Cam gweithredu: Yr Heddlu i roi amserlen o Gyfarfodydd Cyhoeddus i Swyddog Ymgysylltu** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| | **SCHTh o fis Medi ymlaen.** | |

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 24/04/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Penderfyniad** | **Crynodeb** | **I'w symud ymlaen gan** |
| | | |

**2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 28 Mawrth a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

PB 2131: SCHTh i drefnu cyfarfod gyda'r Uwch-arolygydd Huw Meredith a Sue Storch – Cyfredol.

PB 2132: Yr Heddlu i roi diweddariad i CHTh ar Ymgyrch 'Encompass.' Daw'r Bwrdd yn ôl at y mater hwn ymhen pedair wythnos – Cyfredol.

PB 2133: Mae angen ystyried y materion a godwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Cânt eu bwydo yn ôl i Heddlu De Cymru er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion a amlygwyd – PG a'r CHTh i drafod.

PB 2137: Y Prif Swyddog Ariannol i roi diweddariad ar yr adroddiadau gofynnol, fydd yn cael eu cyflwyno ddwywaith y flwyddyn i'r PG – Cyfredol.

PB 2142: Dywedodd y CHTh bod posibilrwydd nad oes digon o gyllid ar gyfer Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw.

PB 2144: Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag archifo ffotograffau stoc swyddogion heddlu.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i gysylltu â Dylan Davies mewn perthynas ag egluro'r pwyntiau Cynllun Gweithlu a godwyd gan y CHTh yng nghyfarfod BAH ym mis Ebrill.**

**Cam gweithredu: AE i siarad â swyddog y wasg mewn perthynas â lluniau stoc archif swyddogion a chynnwys yr ASP yn y trafodaethau hyn.**

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

<u>Diweddariad Gweithredol</u>

Hysbysodd y PG y Bwrdd bod pedwar aeloda staff wedi'u hatal o'r gwaith ar hyn o bryd.

Diweddarodd y PG y Bwrdd ynghylch amrediad o faterion gweithredol.

Diweddarodd y PG y Bwrdd mewn perthynas ag achos cam-drin domestig lle'r oedd y troseddwr wedi'i gyhuddo ag ymddygiad cymhellol a rheolaethol. Hwn oedd y cyhuddiad cyntaf o'i fath yn Heddlu Dyfed-Powys. Gofynnodd y CHTh am i'r achos gael ei fonitro drwy'r broses lys.

Cyfeiriodd y PG at ddigwyddiad gwrthwynebus lle'r oedd yr heddlu wedi'u galw i fynychu digwyddiad oherwydd nid oedd ambiwlans ar gael.

Diweddariad sefydliadol

Cadarnhaodd y PG bod yr adolygiad Gwasanaethau Cyfreithiol yn parhau. Awgrymodd y CHTh y dylid trafod y mater hwn yn Niwrnod i Ffwrdd y Prif Swyddogion ar 27 Ebrill. Hefyd, dywedodd y PG bod yr adolygiad Prif Swyddogion yn parhau a bod AHEM wedi cwblhau gwaith cyn-gwmpasu cyn eu harchwiliad ar 6 Mehefin. Derbyniwyd adborth adeiladol am y gwaith hwn, ac roedd yr heddlu hefyd wedi derbyn adborth cadarnhaol ar eu Datganiad Rheoli'r Heddlu. Byddai'r Adolygiad o Ddatblygiad Perfformiad yn cael ei gytuno erbyn 24 Ebrill.

Hysbysodd y PG y Bwrdd bod y PG a'r DBG yn cychwyn ar eu teithiau ar 3 Mai.

## 4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Cenedlaethol

Dywedodd y CHTh ei fod wedi derbyn gwahoddiad i siarad yng Nghynhadledd Genedlaethol y Ffederasiwn Plismona ym Mirmingham ar 16 Mai, a'i fod wedi derbyn y gwahoddiad. Ddydd Mercher, byddai'r CHTh mewn gweithdy TGCh yr Heddlu yn Llundain. Cwestiynodd y CHTh ddiben y Sioe Deithiol Genedlaethol Technoleg Plismona a oedd yn cael ei lansio ddydd Gwener. Cytunodd y PG i drafod â Chyfarwyddwr Cynorthwyol TGCh. Dywedodd y PG nad oedd penderfyniad wedi'i wneud o ran dewis darparwr gwasanaeth. Cytunwyd y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng y PG, CHTh a Chyfarwyddwr Cynorthwyol TG er mwyn symud ymlaen â phenderfyniad ar system yr heddlu.

**Cam gweithredu: Y PG a'r CHTh i gwrdd â Steve Harvard i drafod system yr heddlu.**

Datblygodd trafodaeth o gwmpas y Fformiwla Ariannu. Dywedodd y PSA y byddai penderfyniad yn cael ei ohirio yn awr tan ar ôl yr etholiad cyffredinol a allai fod yn rhy hwyr ar gyfer gweithredu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Lleol

Roedd y CHTh wedi ymweld â'r Uned Ailhyfforddi Gyrwyr ym Mhen-bre ac awgrymodd y byddai'n fuddiol archwilio i ddefnyddiau amgen ar gyfer y safle.

Dywedodd y CHTh bod ei Gynllun Ariannu Cymunedol wedi agor ar gyfer ceisiadau.

**Materion yn Codi**

**Chwarterolyn Oedolion Priodol**

Cytunwyd bod angen eglurhad pellach o ran costau. Ail drefnwyd yr eitem hon ar gyfer cyfarfod o'r BP yn y dyfodol.

**Cam gweithredu: AE i geisio trosolwg o'r costau.**

**Gwobr Tendr Sengl Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu**

Holodd y PSA ynghylch gwireddu manteision costau o ran yr arbedion o'r cytundeb hwn. Dywedodd y PSA ei bod hi'n gyfforddus â'r ddogfen fel arall.

**Cam Gweithredu: PSA i geisio eglurhad wrth Marc Jones ynglŷn â gwireddu manteision.**

Dywedodd y CHTh ei fod yn cymeradwyo'r Wobr Tendr Sengl Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu yn amodol ar yr eglurhad uchod.

**Gwobr Tendr Sengl Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw**

Cadarnhaodd y CHTh mai estyniad o gytundeb cyfredol oedd hyn. Ni chodwyd unrhyw faterion mewn perthynas â'r mater hwn, ac roedd y CHTh yn hapus i gymeradwyo.

**Unrhyw fusnes arall**

**Cyfle am Secondiad gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol**

Dywedodd y CHTh ei bod hi wedi bod yn anodd llenwi'r rôl. Roedd SCHTh yn awr yn edrych ar gynnig cyfle ar gyfer secondiad. Dywedodd y PG y gallai'r cyfle fod yn fwy deniadol pe bai'r prosiect yn fwy na thri mis. Dywedodd y CHTh y gallai'r cyfle i weithio o bell hefyd wneud y swydd yn fwy deniadol.

**Cam gweithredu: Y CHTh, Alison Perry ac Irene Davies-Jones i drafod y cyfle ar gyfer secondiad gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.**

**Adroddiad Cyflwr Plismona**

Holodd y CHTh pa un ai a fyddai'r PG yn cyflwyno ymateb i'r adroddiad. Cadarnhaodd y PG bod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu'n ymateb ar ran Prif Gwnstabliaid.

**Rhagweithgarwch mewn perthynas â'r defnydd o gyffuriau**

Yn dilyn sylw ar gyfryngau cymdeithasol, cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r defnydd personol o ganabis, a pha un ai a yw o fudd i'r cyhoedd i gyhuddo am symiau bach iawn o ganabis. Symudodd y drafodaeth ymlaen at achos penodol.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i edrych i mewn i'r achos penodol a drafodwyd.**

**Cam gweithredu: SR i gynnig y gallai'r Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys nesaf adolygu achosion o'r fath.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 24/04/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2147** | **Yr heddlu i gysylltu â Dylan Davies mewn perthynas ag egluro'r pwyntiau Cynllun Gweithlu a godwyd gan y CHTh yng nghyfarfod BAH ym mis Ebrill.** | **AE** |
| **PB 2148** | **AE i siarad â swyddog y wasg mewn perthynas â lluniau stoc archif swyddogion a chynnwys yr ASP yn y trafodaethau hyn.** | **AE** |
| **PB 2149** | **Y PG a'r CHTh i gwrdd â Steve Harvard i drafod system yr heddlu.** | **PG a'r CHTh** |
| **PB 2150** | **AE i geisio trosolwg o'r costau.** | **AE** |
| **PB 2152** | **Y CHTh, Alison Perry ac Irene Davies-Jones i drafod y cyfle ar gyfer secondiad gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.** | **PSA** |
| **PB 2153** | **Y CHTh, Alison Perry ac Irene Davies-Jones i drafod y cyfle ar gyfer secondiad gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.** | **CHTh** |
| **PB 2154** | **Yr heddlu i edrych i mewn i'r achos penodol a drafodwyd.** | **AE** |
| **PB 2155** | **SR i gynnig y gallai'r Panel Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys nesaf adolygu achosion o'r fath.** | **SR** |